# Ymchwil yr ASB yn dangos pryder cynyddol ynghylch cost bwyd

Mae dau adroddiad pellach, sydd hefyd wedi’u cyhoeddi heddiw, yn dangos cynnydd yn y defnydd ar fanciau bwyd a darparwyr bwyd cymunedol ar draws y gymdeithas, yn ogystal â galwadau gan fanciau bwyd am gyngor cliriach, mwy hygyrch ar drin bwyd yn ddiogel.

Canfu’r ymchwil y canlynol:

- Mae cost bwyd bellach yn bryder mawr at y dyfodol o dri o bob pedwar (76%) defnyddiwr yn y DU (prosiect Buddiannau, Anghenion a Phryderon am Fwyd y DU).
- Mae nifer y bobl sy’n defnyddio banc bwyd neu elusen fwyd yn parhau i gynyddu – o oddeutu un o bob deg ym mis Mawrth 2021 (9%), i bron i un o bob chwech ym mis Mawrth 2022 (15%). Ac mae dros un o bob 5 (22% ym mis Mawrth 2022) yn dweud eu bod wedi hepgor pryd neu leihau maint prydau oherwydd nad oedd ganddynt ddigon o arian i brynu bwyd (Traciwr Safbwyntiau Defnyddwyr).
- Mae angen cyngor a chymorth ychwanegol ar wirfoddolwyr banciau bwyd a darparwyr cymorth bwyd eraill ar drin rhoddion bwyd, gan gynnwys storio, paratoi, a dosbarthu bwyd yn ddiogel, gan osgoi gwastraff bwyd (Prosiect ar Ddarparwyr Bwyd Cymunedol).

Ynghyd â chyhoeddi’r dystiolaeth hon, mae’r ASB yn gweithio gyda busnesau i sicrhau bod y broses rhoi bwyd mor syml â phosib, ac i gefnogi’r rheiny sy’n gweithio mewn banciau bwyd a’r rheiny sy’n eu defnyddio i ddilyn arferion gorau o ran storio, paratoi, a choginio bwyd.

Meddai’r Athro Susan Jebb, Cadeirydd yr ASB:

> “Yn wyneb y pwysau uniongyrchol ar bobl sy’n straffaglu i brynu bwyd, mae banciau bwyd yn chwarae rhan hanfodol yn ein cymunedau. Rydym yn gweithio ar frys gyda’r diwydiant, rhoddwyr mawr eraill ac elusennau banciau bwyd i ystyried beth arall y gallwn ni ei wneud i sicrhau y gellir ailddosbarthu bwyd sy’n ddiogel i’w fwyta i bobl a all elwa o’r cymorth hwn.”
>
> “Gall banciau bwyd fod yn achubiaeth y gellir ymddiried ynddi yn y tymor byr, ond rhaid i lywodraethau a rheoleiddwyr hefyd ystyried ffyrdd eraill y gall pobl gyrchu bwyd diogel ac iachus yn yr hirdymor.”

Mae’r camau y mae’r ASB yn eu cymryd yn cynnwys y canlynol:

- Gweithio gydag elusennau cymorth bwyd gan gynnwys y Rhwydwaith Cymorth Bwyd Annibynnol a FareShare i ddwyn ynghyd a theilwra adnoddau ar gyfer darparwyr bwyd cymunedol er mwyn eu gwneud nhw mor rhwydd i'w defnyddio â phosib.
- Rydym am adeiladu ar y gwaith cryf a wnaed eisoes mewn partneriaeth â WRAP i sicrhau bod cymaint o fwyd dros ben â phosib yn cael ei ailddosbarthu i bobl yn hytrach na mynd yn wastraff.
- Gweithio gyda’r diwydiant, y llywodraeth a sefydliadau elusennol i archwilio a gwella’r dirwedd reoleiddio ar gyfer banciau bwyd a rhoddwyr bwyd, gan sicrhau bod rheolau a chanllawiau mor gymesur ac effeithiol â phosib, a helpu i rannu arferion gorau.

Bydd y tri phrosiect ymchwil a’r gwaith y mae’r ASB yn ei wneud i fynd i’r afael â diffyg diogeledd bwyd yn y cartref yn cael eu trafod yn ei gyfarfod Bwrdd nesaf ar 15 Mehefin.

Mae'r ASB, mewn cydweithrediad â Defra a WRAP, wedi cyhoeddi canllawiau arferion gorau ar ailddosbarthu bwyd dros ben.

Dywedodd Marcus Gover, Prif Weithredwr WRAP:

> “Mae WRAP yn falch o’i berthynas hirsefydlog â’r ASB a’n gwaith cydweithredol yng ngweithgor ailddosbarthu Ymrwymiad Courtauld.
>
> “Rydym yn cefnogi ymdrechion yr ASB i fynd i’r afael â’r pryderon sydd gan lawer ohonom ynghylch cost bwyd. Rydym yn amcangyfrif y gallai mwy na 200,000 o dunelli o fwyd dros ben gael eu dosbarthu o hyd bob blwyddyn. Felly trwy gydweithio gallwn ailddosbarthu rhagor o’r bwyd hwn, a fydd hefyd yn lleihau’r effaith mae ein bwyd yn ei chael ar yr amgylchedd, yn ogystal â helpu i sicrhau system fwyd ffyniannus i bawb yn y DU.”